

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Elizabeth Pierce (Llanfair). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i theulu, gan weddio y bydd Duw yn dda wrthynt yn ystod y dyddiau hyn. Yr un modd, cydymdeimlwn â Llinos Rees a Glyn Davies (Saron) a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth mam Llinos, a chwaer Glyn. Mae'n dymuniadau iddynt hwythau adnabod tangnefedd a digon Duw'r dyddiau hyn.
- Parhawn i gofio yn annwyl am Glyn Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynwn ef, a'r teulu sydd mor ofalus ohono, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn parhau i gael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn. Bu i Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Nerys Jones (Saron) dreulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd. Anfonwn ein cofion atynt hwythau ac at Sally Roberts (Llansannan) sydd wedi cael anffawd a thorri ei garddwrn. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i bob un ohonynt a phawb arall o'r Ofalaeth sydd naill ai wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar neu heb fod yn dda y dyddiau hyn. Gweddiwn ar iddynt brofi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau.

## Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2013

Derbynnir y cyweithiau yn Festri Llansannan nos Lun, Ebrill 15fed rhwng 7.00 ac 8.00. A fydddech cystal â rhoi enw'r capel a rhestr o enwau'r plant ar y gwaith, os gwelwch yn dda?

## I ddod

- **Sasiwn Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, Mai 7fed.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos Iau Dyrchafael, Mai 9fed yn Festri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.
- Taith Haf 2013 y mudiad Care for the Family – **“Getting your kids through church without them ending up hating God”** yng nghwmni Rob Parsons yn Eglwys Sure Hope, Bae Colwyn nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30. Pris: £5.
- **Diwrnod Genod** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 14eg–15fed. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Diwrnod i ymlacio, mwynhau cymdeithas ac i ddysgu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565.
- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** yn dathlu 60 ar Mehefin 24ain–26ain yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / [geraint.w.jones@btinternet.com](mailto:geraint.w.jones@btinternet.com) am fwy o wybodaeth.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14<sup>eg</sup> Ebrill 2013

Darlleniad y Dydd

Luc 2:25–33

(BCND tud.63 / BCN: tud.58)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Croeso cynnes iawn i bawb ohonoch i'n amrywiol oedfaon heddiw. Wrth i ni gychwyn wythnos arall, gweddiwn ar i Dduw ein helpu i sylweddoli gyda'r Salmdd: 'Ymestyn dy gariad, ARGLWYDD, hyd y nefoedd, a'th ffyddlondeb hyd y cymylau' (Salm 36:5).

Mae'n rhaid i mi gyfaddef i mi fod braidd yn flêr ddydd Mawrth. Er i mi dderbyn llythyr yn fy rhybuddio, fe anghofiais bopeth y byddai'r trydan i ffwrdd o 9 tan 5 y diwrnod hwnnw. (Tybed faint yn fwy o bobl Llansannan gafodd yr un sioc?!) Oherwydd i mi ddiystyru'r rhybudd a chael fy nal wrth i'r trydan ddiffodd yn y bore, roeddwn i'n cicio fy hun am ran dda o'r diwrnod, ac yna'r gorfod pendroni am amser hir beth y dyliwn ei wneud nesaf? Doedd o ddim y bore mwyaf cynhyrchiol i mi ei gael!

Ond mor hawdd ydi i ni fod mewn sefyllfa debyg wrth ystyried ein Harglwydd hefyd. Gallwn ddarganfod ein hunain mewn twll oherwydd ein bod wedi anwybyddu neu anghofio rhybuddion Duw yn ei Air, ac oherwydd hynny'n treulio llawer o'n hamser yn ystyried beth i'w wneud nesaf yn y sefyllfa ddryslud yr ydym ynddi.

Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw, mae Simeon yn moli Duw oherwydd beth mae dyfodiad Iesu Grist yn ei olygu. Trwy'r Ysbryd Glân, mae Simeon yn gweld mai'r plentyn bach yn ei ddwylo oedd cyfrwng Duw i roi gobaith a goleuni i bobl o bob rhan o'r byd. Mae Simeon yn sylweddoli fod yr Un yr oedd pobl Dduw wedi bod yn disgwyl amdano ers cenedlaethau bellach wedi cyrraedd – mae addewidion Duw am gael eu gwireddu trwy'r Un bach hwn!

Ac felly wrth i ni geisio meddwl beth yr ydym i'w wneud nesaf yn ein bywydau ac ynglŷn â'n ffydd, mae'r ateb i'w weld yn Luc 2:28 ym mreichiau Simeon. Iesu ei hun yw'r ateb i'n dryswch a'n dieithrwch oddi wrth Dduw. Os ydym am ddod at oleuni a chariad Duw – trwy bwysu ar Iesu yn unig y mae'r ffordd i ni wneud hynny (Ioan 14:6).

Ydym ni'n sylweddoli y gallwn ninnau hefyd fel Simeon ddiolch a moli Duw oherwydd bod gobaith ac achubiaeth yn cael ei gynnig i'n byd anghenus trwy Iesu Grist? Waeth pa mor druenus y mae ein sefyllfa, neu pa mor dywyll y mae pethau arnom – wrth droi cefn ar ein hunan-ddibyniaeth ac ymddiried yn Iesu, Mab Duw, cawn brofi cariad, gobaith a'r tangnefedd sy'n dod o fod yn eiddo i'n Harglwydd. Newyddion da yn wir!

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.  
• Derbynnir **Cyweithiau yr Ysgolion Sul** yn Festri Llansannan rhwng 7.00 ac 8.00. (*Mwy o fanylion ar y dudalen gefn.*)
- Mawrth  
lau • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.  
• **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.  
• Bydd yr ail gyfarfod i drefnu **Pabell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytûn yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog am 6.00. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.
- Cynhelir **Noson Gymdeithasol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y wraig wadd fydd Mrs Nia Royles. Croeso cynnes i bawb.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.  
• **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch David Owens yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Trefniant 'Adnabod Dawn' fydd yn Henllan heddiw gyda Dafydd Timothy yn arwain yr oedfa am 10.30. Bydd cinio i ddilyn i godi arian tuag at y Sasiwn Genhadol a phabell Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00 ac yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau